# Amcan Lles 4:
# Cymunedau diogel, hyderus a grymus

## Asesiad Caerdydd o Les Lleol

**Ds:** Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mewn llawer o achosion ni fydd hyn yn cipio effaith lawn pandemig byd-eang Covid-19. Cafodd gwaith i gasglu rhai setiau data ei atal yn sgil y pandemig hefyd.


# Rhestr Dangosyddion


1. Troseddu Cyffredinol
2. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio (Dang. Cenedlaethol 25)
3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn llwyddo i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eich ardal?
4. Trais yn erbyn y Person
5. Trais gydag anaf
6. Trais heb anaf
7. Meddu ar arf
8. Troseddau Cyffuriau
9. Difrod Troseddol
10. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
11. Y Drefn Gyhoeddus
12. Cyfran gyffredinol y troseddwyr sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) dros y 12 mis blaenorol
13. Digwyddiadau Casineb
14. Trosedd Casineb
15. Digwyddiadau Domestig
16. Troseddau Domestig
17. Troseddau Rhyw
18. Dwyn oddi ar berson
19. Dwyn o gerbyd modur
20. Dwyn cerbyd modur
21. Dwyn beic
22. Pob trosedd dwyn arall
23. Lladradau
24. Bwrgleriaeth breswyl
25. Bwrgleriaeth mewn Busnesau ac yn y Gymuned
26. Dwyn o siop
27. Canran y bobl sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw
28. Canran y bobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27)
29. Canran sy'n Gwirfoddoli
30. Canran sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Dangosydd Cenedlaethol 23)
31. Etholiadau
32. Troseddau Ieuenctid

# 1. Troseddu Cyffredinol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Caerdydd sydd â'r gyfradd droseddu isaf ond un o blith dinasoedd cymaradwy yng Nghymru a Lloegr.
- Yn gyson uwch na chyfradd Cymru a Lloegr ers 2016/17
- Yr gyfradd uchaf ond un o blith Awdurdodau Lleol Cymru, ar ôl Casnewydd.




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref/ONS*

# 2. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio (Dang. Cenedlaethol 25)


**Yn seiliedig ar:**

- **2016-2018 - I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel (Holi Caerdydd)**
- **2017 i 2020 - Pa mor ddiogel neu anniogel ydych chi'n teimlo yn y sefyllfaoedd canlynol (Holi Caerdydd)**

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae Caerdydd wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru o ran teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020/21)
- Mae ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd mwyaf amddifadus y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel o gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus. (Arolwg Holi Caerdydd 2016-18)
- Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo’n ddiogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas wedi iddi nosi, gyda’r ganran yn gostwng o 44.2% yn 2017 i 37% yn 2020. Yn 2020, dim ond 25% o ymatebwyr ag anabledd a 30% o'r menywod a ymatebodd a oedd yn teimlo'n ddiogel. (Arolwg Holi Caerdydd 2020)

**Canran y bobl sy’n teimlo’n ddiogel yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio fesul ardal, 2020-21**




Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd (Holi Caerdydd 2020)

| % Teimlo’n Ddiogel | Gartref | | Cerdded yn eich cymdogaeth | | Cerdded yng nghanol y ddinas | | Teithio mewn bws | | Wrth feicio yng Nghaerdydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Golau dydd* | *Wedi iddi dywyllu* | *Golau dydd* | *Wedi iddi dywyllu* | *Golau dydd* | *Wedi iddi dywyllu* | *Golau dydd* | *Wedi iddi dywyllu* | *Golau dydd* | *Wedi iddi dywyllu* |
| **Cyffredinol** | 97.4 | 86.5 | 94.8 | 58.7 | 89.2 | 37.0 | 94.4 | 58.1 | 62.5 | 25.9 |
| **Dan 35 oed** | 97.5 | 81.0 | 93.7 | 46.2 | 91.1 | 37.5 | 95.9 | 62.4 | 69.5 | 32.1 |
| **55+** | 98.0 | 90.0 | 96.4 | 68.9 | 91.3 | 40.3 | 96.0 | 62.0 | 59.1 | 23.7 |
| **Benywaidd** | 97.5 | 86.0 | 94.6 | 51.5 | 89.1 | 30.1 | 94.3 | 51.2 | 61.2 | 19.3 |
| **Gwrywaidd** | 97.9 | 91.2 | 96.2 | 72.9 | 90.6 | 48.8 | 95.7 | 71.5 | 64.5 | 34.4 |
| **Lleiafrif Ethnig** | 96.9 | 89.0 | 94.3 | 57.5 | 90.6 | 44.5 | 95.4 | 65.7 | 66.9 | 36.7 |
| **Yr Arc Ddeheuol** | 95.4 | 81.4 | 91.6 | 47.5 | 88.9 | 39.5 | 93.4 | 58.0 | 60.7 | 28.9 |
| **Anabledd** | 92.2 | 77.3 | 89.3 | 46.9 | 82.0 | 25.1 | 88.7 | 48.2 | 57.8 | 23.2 |
| **Siaradwr Cymraeg** | 99.7 | 90.1 | 95.8 | 65.1 | 91.1 | 40.2 | 96.4 | 61.7 | 58.7 | 22.1 |

Y 3 phrif reswm pam bod pobl yn teimlo'n anniogel mewn gwahanol sefyllfaoedd (Holi Caerdydd 2020)

| Cerdded yn eich cymdogaeth | |
|---|---|
| **Gangiau / Pobl Ifanc** | *37.5%* |
| **Ymddygiad gwrthgymdeithasol** | *26.1%* |
| **Goleuadau / Yn y tywyllwch** | *20.5%* |

| Cerdded yng nghanol y ddinas | |
|---|---|
| **Pobl Ddigartref / Cardotwyr** | *37.2%* |
| **Ymddygiad meddwol** | *35.5%* |
| **Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Ymddygiad bygythiol** | *31.1%* |

| Teithio mewn bws | |
|---|---|
| **Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Ymddygiad bygythiol** | *31.3%* |
| **Ofn dioddef ymosodiad / Teimlo'n agored i niwed** | *21.7%* |
| **Yn y Tywyllwch / Gyda’r nos** | *17.8%* |

| Beicio | |
|---|---|
| **Gyrwyr Peryglus/Anystyriol** | *47.0%* |
| **Diffyg seilwaith pwrpasol** | Cafodd *33.6%* |
| **Nid yw’n ddiogel / Mae’n beryglus** | *14.5%* |


*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

# 3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn llwyddo i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eich ardal?


**Pwyntiau Allweddol:**

- Cytunai tri o bob deg ymatebydd fod digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eu hardal leol, o'i gymharu â 46.6% a oedd yn anghytuno.
- Yr ymatebwyr a oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf amddifadus y ddinas oedd yn lleiaf tebygol o gytuno, gydag 16.2% yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus o gymharu â 43.6% yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus.
- Y rhai sy'n byw yn yr Arc Ddeheuol (23.4%) a'r dynion a ymatebodd (31.%) a oedd yn lleiaf tebygol o gytuno â'r datganiad hwn. Ymatebwyr o leiafrif ethnig (37.4%) neu dan 35 oed (36.6%) oedd yn fwyaf tebygol o gytuno.

**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn delio'n llwyddiannus gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn eich ardal leol? Pumed Amddifadedd**





**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn delio'n llwyddiannus gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn eich ardal leol?**




# 4. Trais yn erbyn y Person

**Pwyntiau Allweddol:**

- Y gyfradd isaf o blith dinasoedd cymaradwy yng Nghymru a Lloegr
- Fodd bynnag, yn gyson uwch na chyfradd Cymru a Lloegr ers 2016/17
- Mae'r gyfradd wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.
- Yr 8[fed] cyfradd isaf o blith ALlau Cymru





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref/ONS*

# 5. Trais gydag anaf

**Pwyntiau Allweddol:**
- Rhwng 2016/17 a 2019/20 nid yw lefelau Trais gydag Anaf wedi newid rhyw lawer. (o 3484 i 3501)
- Yn 2020/21 bu cwymp amlwg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig (o 3501 i 2753).






*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 6. Trais heb anaf

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn dilyn cwymp sylweddol mewn lefelau Trais Heb Anaf yn 2018/19, cafwyd gostyngiad cymharol fach yn y 2 flynedd diwethaf, o 3980 i 3485





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 7. Meddu ar arf

**Pwyntiau Allweddol:**
- Rhwng 2016/17 a 2019/20 bu cynnydd cyson mewn troseddau Meddu ar Arf, a gostyngiad yn 2020/21 yn ystod y pandemig (o 321 i 250 o droseddau)





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 8. Troseddau Cyffuriau

**Pwyntiau Allweddol:**

- Er 2016/17 mae Troseddau Cyffuriau wedi tueddu i gynyddu o 1,228 i 2,103 yn 2020/21






*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 9. Difrod Troseddol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Y gyfradd isaf ond un o blith dinasoedd cymaradwy yng Nghymru a Lloegr
- Mae'r duedd yn gwella, ond wedi parhau'n uwch na chyfraddau Cymru a Lloegr ers 2016/17
- Y 7fed cyfradd uchaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru, ond y cymharu'n dda â Chasnewydd a Blaenau Gwent, a chanddynt y cyfraddau uchaf.
- Gostyngiad sylweddol mewn troseddau yn ystod y pandemig yn 2020/21 (o 4070 i 3233 o droseddau)




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref/ONS*

# 10. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol


**Pwyntiau Allweddol:**

**Data cyfradd fesul 100 o bobl/data cymharol (2018/19 yw'r data diweddaraf sydd ar gael)**


- Er mai Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru, mae'r gyfradd honno wedi gostwng o 3.77 yn 2016/17 i 3.46 fesul 100 o bobl yn 2018/19
- Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd problemus o safbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u lleoli yn Arc Ddeheuol y ddinas.

**Data Nifer Digwyddiadau Heddlu De Cymru 2017-2021**

- Er 2016/17 gwelwyd gostyngiad cyson mewn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaerdydd (o 12,039 i 9,307 yn 2019/20)
- Roedd y cynnydd sylweddol a gafwyd yn 2020/21 yn deillio o gofnodi achosion o dorri canllawiau Covid-19 fel digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol




*Ffynhonnell: MALIC*






*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 11. Y Drefn Gyhoeddus

**Pwyntiau Allweddol:**

- Arweiniodd newidiadau wrth Gofnodi Troseddau a gyflwynwyd yn 2017/18 at gofnodi mwy o achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fel troseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus.
- Rhwng 2017/18 a 2019/20 bu cynnydd cyson yn nifer y Troseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus
- Yn 2020/21 roedd nifer y Troseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus yn debyg i'r flwyddyn flaenorol er gwaethaf y pandemig.









*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 12. Cyfran gyffredinol y troseddwyr sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) dros y 12 mis blaenorol

**Pwyntiau Allweddol:**

- 2019 - y data diweddaraf sydd ar gael
- Caerdydd (37.2%) sydd â'r gyfradd aildroseddu uchaf o blith dinasoedd cymaradwy yng Nghymru a Lloegr ac ALlau Cymru
- Mae'r gyfradd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr (26.1%)









*Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder*

# 13. Digwyddiadau Casineb

**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17, mae cyfanswm y digwyddiadau casineb wedi aros ar lefelau tebyg (yn amrywio rhwng 1110 a 1053)
- Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y digwyddiadau'n cyrraedd uchafbwynt ym misoedd yr haf









*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 14. Trosedd Casineb

**Pwyntiau Allweddol:**
- Yn dilyn gostyngiad yn 2016/17, mae cyfanswm y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu'n raddol o 774 i 860 yn 2021
- Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y troseddau'n cyrraedd uchafbwynt ym misoedd yr haf








*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 15. Digwyddiadau Domestig

**Pwyntiau Allweddol:**

- Rhwng 2016/17 a 2018/19 bu cynnydd cyson yn nifer y digwyddiadau domestig a gofnodwyd (o 7777 i 8605)
- Mae'n debygol mai tanadrodd a chyfyngiadau yn ystod y pandemig sydd wrth wraidd y gostyngiad dros y 2 flynedd ddiwethaf. (o 8605 i 7812)





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 16. Troseddau Domestig

**Pwyntiau Allweddol:**


- Rhwng 2016/17 a 2018/19 bu cynnydd cyson yn nifer y troseddau domestig a gofnodwyd (o 3603 i 4349)
- Mae'n debygol mai tanadrodd a chyfyngiadau yn ystod y pandemig sydd wrth wraidd y gostyngiad dros y 2 flynedd ddiwethaf. (o 4349 i 3889)




*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 17. Troseddau Rhyw

**Pwyntiau Allweddol:**
- Rhwng 2016/17 a 2019/20 gwelwyd tuedd i Droseddau Rhyw gynyddu o 872 i 1111.
- Yn ystod 2021 a'r pandemig, cafwyd cwymp i lefelau 2016/17





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 18. Dwyn oddi ar berson

**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17, mae'r achosion o ddwyn oddi ar berson wedi amrywio (amrywio rhwng 588 a 725)
- Yn 2021, hanerodd yr achosion o ddwyn o gymharu â'r flwyddyn gynt, oherwydd y pandemig (o 725 i 307)
- Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y troseddau fel arfer yn cyrraedd uchafbwynt ym misoedd y gaeaf









*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 19. Dwyn o gerbyd modur

**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17 mae nifer yr achosion o ddwyn o gerbyd modur wedi gostwng yn sylweddol o 3,116 yn 2016/17 i 2,269 yn 2019/20 cyn y pandemig.





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 20. Dwyn cerbyd modur


**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17 mae achosion o ddwyn cerbyd modur wedi tueddu i gynyddu, gyda gostyngiad bach o 740 i 689 yn 2020/21





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 21. Dwyn beic

**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17, mae lefelau dwyn beiciau wedi amrywio (rhwng 1585 a 1484 yn 2019/20)
- Bu cwymp sylweddol yn 2020/21 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig (o 1484 i 978)
- Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y troseddau fel arfer yn cyrraedd uchafbwynt ym misoedd yr haf









*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 22. Pob trosedd dwyn arall

**Pwyntiau Allweddol:**

- Y 3[edd] gyfradd isaf ond un o blith dinasoedd cymaradwy yng Nghymru a Lloegr
- Mae'r duedd yn gwella, ond wedi parhau'n sylweddol uwch na chyfraddau Cymru a chyfraddau Cymru a Lloegr ers 2016/17
- Y gyfradd uchaf ar wahân i Gasnewydd.
- Gostyngiad sylweddol mewn troseddau yn ystod y pandemig yn 2020/21 (o 3410 i 2357 o droseddau)





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 23. Lladradau


**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2016/17, mae nifer y troseddau lladrad wedi amrywio gan dueddu i gynyddu (gyda'r niferoedd yn amrywio rhwng 192 a 276)




*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 24. Bwrgleriaeth breswyl

**Pwyntiau Allweddol:**
- Ers newid dosbarthiad Bwrgleriaethau Domestig i Fwrgleriaethau Preswyl yn 2017/18, pan newidiwyd y mathau o adeiladau a oedd wedi'u cynnwys, mae nifer y bwrgleriaethau wedi gostwng yn gyson rhwng 2017/18 a 2020/21 o uchafbwynt o 1994 i 1243.





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 25. Bwrgleriaeth mewn Busnesau ac yn y Gymuned

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ers newid dosbarthiad Bwrgleriaethau Annomestig i Fwrgleriaethau Busnes a Chymuned yn 2017/18, pan newidiwyd y mathau o adeiladau a oedd wedi'u cynnwys, arhosodd niferoedd y bwrgleriaethau ar lefelau tebyg rhwng 2017/18 a 2019/20.
- Cafwyd gostyngiad o draean mewn bwrgleriaethau yn 2020/21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig (o 982 i 605)





*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

## 26. Dwyn o siop

**Pwyntiau Allweddol:**


- Er 2016/17 mae cyfanswm y troseddau dwyn o siop wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn, gan gyrraedd 5023 yn 2018/19
- Yn 2020/21, cafwyd hanner y troseddau a gafwyd yn 2018/19 (cyn y pandemig) (o 5023 i 2431)




*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*

# 27. Canran y bobl sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw

**Pwyntiau Allweddol:**
- Mae Caerdydd yn y safle o blith Awdurdodau Lleol Cymru ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru
- Ceir 6 phwynt canran rhwng Caerdydd ar 92% a Bro Morgannwg, y perfformiwr gorau, ar 98%
- Mae'r ganran ar gyfer Caerdydd wedi cynyddu 4 pwynt canran er 2016/17 (88%)




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*


# 28. Canran y bobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27)

**Yn seiliedig ar: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd yn eich cymdogaeth? (Holi Caerdydd)**

**Pwyntiau Allweddol:**


- Mae Caerdydd yn hafal i gyfartaledd Cymru ac yn y safle uchaf o blith awdurdodau lleol trefol Cymru (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2020/21. Bu cynnydd o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn y ganran sy'n cytuno â'r datganiad hwn, gyda chynnydd sylweddol yn 2020/21 (o 53% yn 2016/17 i 69% yn 2021)
- Bwlch o fewn y ddinas: Gwahaniaeth o 32 pwynt canran rhwng y cymunedau mwyaf/lleiaf amddifadus (Holi Caerdydd, 2020)

**Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch, 2020-21**




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*


**I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn: Mae fy nghymdogaeth yn lle y gall pobl ddod ymlaen yn dda gyda'i gilydd a helpu ei gilydd? 2020 Pumed Amddifadedd**





*Ffynhonnell: Holi Caerdydd 2020*

# 29. Canran sy'n Gwirfoddoli

**Pwyntiau Allweddol:**
- 2019/20, y data diweddaraf sydd ar gael
- Er 2016/17 mae'r ganran wedi gostwng ychydig o 30% i 26%
- Mae Caerdydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Gellir cymharu hyn â 33% yng Ngwynedd, yr awdurdod sy'n perfformio orau
- Ceir cyfraddau tebyg ar draws y cymunedau mwyaf/lleiaf amddifadus (9.9 pwynt canran o wahaniaeth)




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*






*Ffynhonnell: Holi Caerdydd 2020*

# 30: Canran sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Dangosydd Cenedlaethol 23)

**Pwyntiau Allweddol:**

- Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol oedd 24.9% yn 2020/21, fymryn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 25.9%. Dyma gynnydd o 20.6% o gymharu â ffigur 2018/19.









*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

# 31: Etholiadau

**Pwyntiau Allweddol:**
- Roedd y nifer a bleidleisiodd yn Etholiadau Lleol Cymru 2017, sef 42.7%, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru
- Roedd y nifer a bleidleisiodd fesul Ward yng Nghaerdydd yn amrywio rhwng 26.6% yn Trowbridge a 61.9% yn Rhiwbeina
- Yn Etholiad Cyffredinol 2019, aeth 63.8% i fwrw eu pleidlais yng Nghaerdydd, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Yn Etholiad y Senedd yn 2021, aeth 49.5% i fwrw eu pleidlais yng Nghaerdydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru




*Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol*

# 32. Troseddau Ieuenctid

**Pwyntiau Allweddol:**


- Rhwng Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, arestiadau am droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (103) trais heb anaf (96) a masnachu cyffuriau (92) oedd y rhan fwyaf o'r arestiadau am droseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc rhwng 10 ac 18 oed. Yn ogystal â hyn cafwyd 51 o droseddau'n ymwneud â cherbyd, 39 o arestiadau am ddifrod troseddol, 36 o droseddau meddu ar arf, a 26 o droseddau trais gydag anaf. Cafwyd 17 o arestiadau am dreisio.

- Ar draws yr holl droseddau hyn, roedd 80% o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 pan gawsant eu harestio.

- Roedd 27% o'r unigolion a arestiwyd yn ystod y cyfnod o 12 mis yn ad-droseddwyr ac i gyfrif am dros hanner yr arestiadau.

- Mae'r nifer sy'n cael eu derbyn am y tro cyntaf i'r system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng ers 2016/17, gyda gostyngiad sylweddol yn 2020/21. Fodd bynnag, dylid ystyried effaith y Coronafeirws.

Nifer y Newydd-ddyfodiaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid 2016/17 i 2020/21




*Ffynhonnell: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd*

Troseddau Ieuenctid yn ôl Math o Drosedd

| Grŵp Troseddau | Gwryw | Benyw | Cyf. | Grŵp Troseddau | Gwryw | Benyw | Cyf. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus** | 87 | 16 | 103 | **Treisio** | 17 | 0 | 17 |
| **Trais heb anaf** | 74 | 22 | 96 | **Dwyn beic** | 14 | 1 | 15 |
| **Masnachu cyffuriau** | 89 | 3 | 92 | **Meddu ar gyffuriau** | 11 | 2 | 13 |
| **Trosedd anhysbysadwy** | 69 | 20 | 89 | **Bwrgleriaeth annomestig** | 11 | 0 | 11 |
| **Troseddau cerbydau** | 45 | 6 | 51 | **Troseddau rhywiol difrifol eraill** | 9 | 1 | 10 |
| **Difrod troseddol** | 30 | 9 | 39 | **Twyll gweithredol** | 3 | 3 | 6 |
| **Troseddau Meddu ar Arf** | 35 | 1 | 36 | **Dwyn oddi ar y person** | 6 | 0 | 6 |
| **Lladradau** | 30 | 0 | 30 | **Pob trosedd dwyn arall** | 3 | 0 | 3 |
| **Trais gydag anaf** | 24 | 2 | 26 | **Dwyn o siop** | 2 | 1 | 3 |
| **Bwrgleriaeth ddomestig** | 17 | 1 | 18 | **Llosgi Bwriadol** | 0 | 2 | 2 |
| **Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas** | 15 | 3 | 18 | **Troseddau rhyw eraill** | 2 | 0 | 2 |

[1] Y pedwerydd categori uchaf o droseddau yw 'troseddau anhysbysadwy.' Mae'r grŵp hwn yn cynnwys:
•Arestio 17 o bobl am fod yn feddw ac afreolus (10 menyw a 7 dyn);
•Arestio 15 am dorri gorchymyn rhwymo i gadw'r heddwch (10 dyn a 5 menyw);
•Arestio 14 ar warant (dynion i gyd);
•Roedd a wnelo'r troseddau a oedd yn weddill ag amryw o dramgwyddau, fel torri amodau mechnïaeth a thor heddwch.

*Ffynhonnell: Heddlu De Cymru*